# Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**Date:** **18 Hydref 2016**

**Amser:** **11:00-11:30**

**Title:** **Papur tystiolaeth ar Addysg Bellach ac Addysg Uwch**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r papur hwn yn cynnwys tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar addysg bellach (AB) ac addysg uwch (AU). Mae'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau strategol allweddol ar gyfer pob sector, yn y meysydd o ddiddordeb a nodwyd yn llythyr y Cadeirydd dyddiedig 19 Gorffennaf 2017.


## 2. Addysg Bellach

Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector AB

2. 1 Yn sgil y toriadau a orfodwyd ar Gymru gan San Steffan, mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi lleihau'n sylweddol.

2. 2 Bu gostyngiad o £23.665 miliwn yng nghyllid rheolaidd Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector rhwng 2013/14 a 2017/18, sef gostyngiad o 7.63 y cant yn nhermau arian parod dros y cyfnod hwn.

Mae Ffigur 1 isod yn dangos y dyraniadau ar gyfer sefydliadau AB ers 2013/14[1].




[1] Yn y papur hwn, mae '/' yn cyfeirio at flwyddyn academaidd sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf ac mae '-' yn cyfeirio at flwyddyn ariannol sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth. Mae sefydliadau AB yn derbyn eu cyllid ar sail blwyddyn academaidd.

2. 3 Ar gyfer 2016/17 a 2017/18, mae'r cyllid ar gyfer y sector AB wedi aros yn gymharol sefydlog. Fodd bynnag, mae hyn yn dilyn gostyngiadau sylweddol mewn cyllid ar gyfer y sector yn ystod y blynyddoedd blaenorol, ac mae'r rhan fwyaf o'r rheini wedi effeithio ar ddarpariaeth ran-amser i oedolion sy'n ddysgwyr. Ers 2013/14, mae'r cyllid ar gyfer darpariaeth ran-amser wedi gostwng bron 70 y cant mewn termau real, gan adlewyrchu penderfyniad Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu ei chyllid er mwyn cefnogi ysgolion a phobl ifanc.

2. 4 O fewn y dyraniadau ar gyfer sefydliadau AB, rydym wedi diogelu'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed. Mae'r dyraniadau ar gyfer 2016/17 a 2017/18 hefyd yn cynnwys dyraniadau untro o £796,000 i adlewyrchu'r twf mewn darpariaeth lefel 3 ar gyfer dysgwyr 16-19 oed.

2. 5 Rydym hefyd wedi ymdrechu i amddiffyn ein dysgwyr mwyaf bregus drwy ddiogelu'r gyllideb ar gyfer Addysg Sylfaenol i Oedolion a'r gyllideb Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill. Rydym hefyd wedi diogelu darpariaeth benodol ar gyfer dysgwyr a chanddynt anawsterau dysgu cymedrol neu ddwys.

2. 6 Yn dilyn y gostyngiad, mae Llywodraeth Cymru a'r Sector AB wedi gweithio'n agos ar brosiect 'atebion creadigol', sy'n cael ei gefnogi gan £1.8 miliwn o arian Llywodraeth Cymru, i nodi a threialu ffyrdd newydd o ddysgu effeithiol ac effeithlon sydd o fudd i'r dysgwr gan gynnwys rhaglenni dysgu cyflym a chyflwyno rhaglenni sy'n cynnwys mwy o brofiad o ddysgu yn y gweithle.

Cyllid cyfalaf ar gyfer y Sector AB

2. 7 Mae buddsoddi yn y sector AB yn dal i fod yn elfen arwyddocaol o Fand A Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21$^{ain}$ Ganrif, sy'n cwmpasu'r cyfnod o 2014 i 2019. Mae swyddogion wedi gweithio gyda sefydliadau AB i ariannu cynlluniau mawr a rhai llai yn unol â blaenoriaethau sefydliadol. Ymysg y cynlluniau mawr sydd wedi denu cyllid mae Campws newydd Coleg Caerdydd a'r Fro yn Dumballs Road, Caerdydd, a champws newydd ar gyfer safle Aberdâr Coleg y Cymoedd. Buddsoddwyd hefyd mewn cynlluniau adeiladu llai ac mewn darparu offer a sgiliau TG.

2. 8 Mae trafodaethau ar y gweill gyda'r sector AB i gynllunio rhagor o fuddsoddi yn ystod Band B y rhaglen, rhwng 2019 a 2024. Bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud dros y misoedd nesaf o ran lefel yr arian a fydd ar gael i'r sector.

Incwm o gontractau dysgu seiliedig ar waith

2. 9 Ar hyn o bryd mae gan Lywodraeth Cymru gontract gydag 19 o ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith i gyflwyno Prentisiaethau a Hyfforddeiaethau yng Nghymru. Mae'r darparwyr hyn yn gymysgedd o sefydliadau AB, darparwyr Hyfforddiant Preifat a Sefydliadau'r Trydydd Sector, sy'n gweithio'n unigol neu fel rhan o gonsortia.

2. 10 Mae pob sefydliad AB (ac eithrio Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant ac Addysg Oedolion Cymru) yn ymwneud â darparu dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru, naill ai fel darparwr arweiniol, aelod o gonsortiwm neu is-gontractwr.

2. 11 Dengys y data diweddaraf sydd ar gael o Gyfrifon Ariannol 2015/16 sefydliadau AB[2] incwm cyfunol o £49.8 miliwn o gontractau dysgu seiliedig ar waith, tua 40 y cant o gyfanswm gwerth y contract dysgu seiliedig ar waith, sef oddeutu £125 miliwn.

2. 12 Bu cynnydd yn y gyllideb dysgu seiliedig ar waith ar gyfer 2017-18 er mwyn ymateb i'r cynnydd yn y galw o ganlyniad i gyflwyno Ardoll Brentisiaethau Llywodraeth y DU. Disgwylir felly y bydd yr incwm dysgu seiliedig ar waith i sefydliadau AB yn cynyddu yn ystod y flwyddyn gontract 2017/18.

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol</u>

2. 13 Anfonwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad *Trosolwg Llywodraeth Cymru o gyllid a darpariaeth colegau Addysg Bellach*[3] at yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Mai 2017.

2. 14 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r argymhellion yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys:

- Cynnwys proses casglu gwybodaeth mewn gwaith ystadau a monitro cyllid er mwyn llywio penderfyniadau os bydd cyllid cyfalaf yn dod ar gael o fewn amserlenni tynn (Argymhelliad 2).
- Ymestyn gwaith yn ymwneud â rhagolygon ariannol y tu hwnt i un flwyddyn academaidd i gynnwys rhagolygon ariannol hirdymor (Argymhelliad 3).
- Dyrannu cyllid twf ar gyfer 2017/18 a sefydlu gweithgor ar gyfer y sector i edrych ar opsiynau ar gyfer mecanwaith cyllido diwygiedig gan ddechrau yn 2018/19 (Argymhelliad 4).
- Treialu prosesau adolygu sefydliadol newydd yn ystod 2017, gan edrych ar ddyfodol hirdymor y broses fel rhan o'r corff goruchwylio newydd arfaethedig ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (Argymhelliad 5).
- Cyhoeddi canllawiau blynyddol a phwyslais penodol ar sefydliadau AB (Argymhelliad 6).

2. 15 Bydd gwerthusiad o effaith gostyngiadau cyllid ar ddysgwyr (Argymhelliad 7) yn cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau cyllidebu strategol; i amlygu effeithiau gostyngiadau blaenorol ac effaith debygol gostyngiadau pellach cyn gosod cyllidebau yn y dyfodol.

2. 16 Wrth symud ymlaen, ein nod yw cyhoeddi cyllideb ar gyfer gorwel tair blynedd (Argymhelliad 1), a fyddai'n rhoi mwy o eglurder i'n sefydliadau AB wrth

[2] Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Awst 2015 a 31 Gorffennaf 2016.
[3] https://www.wao.gov.uk/publication/welsh-government-oversight-further-education-colleges%E2%80%99-finances-and-delivery

gynllunio ar gyfer cyfnod cyllideb hwy. Fodd bynnag, dim ond os ceir mwy o eglurder am yr adnoddau refeniw sydd ar gael i Lywodraeth Cymru y gellir gwneud hyn ac, felly, bydd y setliadau cyllido yn adlewyrchu cyllidebau a osodir gan y Cabinet.

Newidiadau sy'n deillio o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014

2. 17 Gwnaeth Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 newidiadau i bedwar maes allweddol i helpu i roi mwy o gyfrifoldeb i golegau reoli eu materion eu hunain:

- Rhagor o bwerau i golegau wneud newidiadau i'w Hofferyn ac Erthyglau Llywodraeth;
- Gallu coleg i ddiddymu ei hun;
- Mwy o ryddid i golegau fenthyca arian;
- Llai o ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru.

2. 18 Daeth adolygiad a gynhaliwyd ddwy flynedd ar ôl pasio'r Ddeddf i'r casgliad fod y Rhaglen Lywodraethu a fabwysiadwyd gan y weinyddiaeth flaenorol, a pholisïau a ddatblygwyd o ganlyniad, wedi bod yn gyfrifol am ddiogelu elfennau'r ddarpariaeth sydd fwyaf mewn perygl, ac ar yr un pryd wedi helpu i lywio datblygiadau ôl-16, h.y. mae polisïau'n parhau i ddiogelu'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed, yn sicrhau bod darpariaeth Gymraeg yn cael ei diogelu a'i datblygu, ac yn rhoi cefnogaeth barhaus i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol.

2. 19 Cynigiodd Deddf 2014 gyfle i AB arallgyfeirio a datblygu ffrydiau incwm newydd yn ogystal â'r potensial i wireddu arbedion effeithlonrwydd drwy leihau cymhlethdod. O ganlyniad, mae SAB yng Nghymru yn gyffredinol yn lleihau eu dibyniaeth ar gyllid y llywodraeth.

Sut y mae'r sector AB yn rhoi ystyriaeth i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

2. 20 Nid yw'r sector AB yn uniongyrchol ddarostyngedig i ofynion y Ddeddf. Fodd bynnag, mae'r sector yn cydnabod ei phwysigrwydd, ac yn 2016 comisiynodd ColegauCymru adroddiad i roi arweiniad i SAB ar ddulliau o ymateb i'r Ddeddf.

2. 21 Canfu'r ymchwil, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2017, fod mwyafrif y SAB yn ystyried y Ddeddf yn gymorth i drawsnewid ac addasu gweithgareddau eu sefydliadau. Roedd bron pob un yn cymryd camau i ymateb i'r Ddeddf. Cynhaliodd yr ymchwilwyr arolygon a chyfweliadau gydag arweinwyr o bob rhan o'r sector a nododd rai amrywiadau yn eu hymwybyddiaeth o'r Ddeddf ac i ba raddau yr oedd yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei gweithredu ar draws SAB. Yn gyffredinol, roedd mwy o gynnydd wedi'i wneud ym meysydd rheoli ariannol, caffael a chynllunio'r cwricwlwm, a llai mewn cynllunio corfforaethol a'r gweithlu. Gwnaeth yr adroddiad argymhellion ar sut y gallai SAB gynnwys datblygu cynaliadwy yn fwy penodol fel rhan o'r swyddogaeth cynllunio corfforaethol.

Diweddariad ar dreialu proses adolygu sefydliadol newydd

2. 22 Mae swyddogion yn datblygu cynigion ar gyfer proses adolygu sefydliadol ddiwygiedig, mewn ymateb i argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Chwefror eleni. Bydd hyn yn dwyn ynghyd y prosesau monitro presennol mewn perthynas ag iechyd ariannol, ansawdd, cynllunio, cyllid a seilwaith, er mwyn cael darlun mwy cynhwysfawr o berfformiad pob sefydliad ac unrhyw feysydd sy'n peri pryder.

2. 23 O gofio argymhellion Adolygiad Hazelkorn a'r diwygiadau i Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol arfaethedig, mae swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr yng Nghyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) sydd wedi sefydlu proses adolygu sefydliadol ar gyfer Addysg Uwch. Rhagwelir y bydd hyn yn arwain at ddull fwy cyson ar draws y sectorau, y gellir ei ddatblygu a'i dreialu cyn sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd. Mae swyddogion hefyd yn gweithio gydag Estyn i sicrhau bod gwybodaeth o arolygiadau yn cael ei hintegreiddio yn y broses adolygu.

2. 24 Argymhellodd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru y dylid cyhoeddi canlyniadau'r adolygiad sefydliadol blynyddol ac rydym yn ystyried y dull gorau o wneud hyn. Gallai hynny gynnwys adroddiad ar draws y sector a all dynnu sylw at dueddiadau, arferion gorau ac unrhyw wendidau y mae angen mynd i'r afael â hwy.

2. 25 Disgwylir i'r cylch adolygu cyntaf gael ei gwblhau erbyn tymor yr haf 2018 a bydd ymgysylltiad cychwynnol â'r sector AB yn digwydd yn ystod hydref 2017.

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r berthynas rhwng y sector AB a rhanddeiliaid eraill

2. 26 Mae monitro a gwerthuso gwaith partneriaeth y sector AB yn digwydd mewn sawl ffordd, gan gynnwys drwy'r cylch cynllunio blynyddol, gwaith Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ac arolygiadau Estyn. Mae arolygiadau wedi nodi cryfderau yn gyson o ran y ffordd y mae SAB yn gweithio gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid eraill. Rhoddir dyfarniad arolygu penodol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth; ers 2010, mae pob SAB a arolygwyd wedi cael dyfarniad 'da' neu 'ardderchog' yn y maes hwn, gyda phob arolygiad ers 2013 yn arwain at ddyfarniad 'ardderchog'.

2. 27 Ym mis Gorffennaf 2017, trafododd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar drosolwg o gyllid a darpariaeth colegau AB. Roedd y sesiwn yn cynnwys ystyried perthynas SAB gydag ystod o randdeiliaid. I grynhoi, gwelwyd bod angen cydweithio ehangach gydag ysgolion a darparwyr eraill yn enwedig wrth ddarparu cyngor ac arweiniad i bobl ifanc. Mae llawer o SAB yn teimlo y gellid gwella'r trefniadau gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion er mwyn lleihau'r gystadleuaeth a sicrhau cydraddoldeb rhwng addysg alwedigaethol ac addysg academaidd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhwydwaith Seren wedi helpu i gryfhau

perthnasau traws-sector, er mwyn cefnogi pobl ifanc sy'n alluog yn academaidd i fynd ymlaen i addysg uwch.

2. 28 Nododd Adolygiad Hazelkorn yr angen i gryfhau'r berthynas rhwng sefydliadau AB ac AU, i sicrhau gwell cyfleoedd i ddysgwyr gamu ymlaen a dull mwy cydlynol o ddiwallu anghenion cyflogwyr. Fel rhan o ddatblygu'r Bil Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol, mae swyddogion yn ymgynghori ar sut y gallai modelau rheoleiddio ganolbwyntio ar ganlyniadau cydweithredol a rhanbarthol, yn ogystal â chynllunio gan sefydliadau unigol.

<u>Newidiadau i'r cwricwlwm a'r effaith bosibl ar sefydliadau AB</u>

2. 29 Cyflwynodd yr Adran Addysg a Sgiliau Fframwaith Cynllunio a Chyllido Ôl-16 newydd ym mis Medi 2014. Yn ganolog i'r fframwaith mae symud o gymwysterau i raglenni fel sail ar gyfer cynllunio a chyllido dysgu ôl-16 mewn SAB.

2. 30 Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar ansawdd y cynnig dysgu o ran y canlyniad i ddysgwyr unigol. Mae gan bob rhaglen bwrpas a chanlyniad penodol y mae'n cael ei monitro yn ei erbyn. Mae rhaglenni dysgu amser llawn yn cynnwys prif gymhwyster, cymhwyster craidd e.e. Sgiliau Hanfodol/Bagloriaeth Cymru, cymwysterau wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion unigolion, cyflogwr neu gymuned, a phrofiad yn gysylltiedig â gwaith.

2. 31 Rydym wedi bod yn arloesol a chreadigol wrth gydweithio â'r sector o ran y ddarpariaeth ym maes AB ac rydym yn darparu rhaglenni dysgu cyflym ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n gallu symud ymlaen yn gyflymach drwy addysg ond parhau â'r cyfnod llawn i'r rhai sydd ei angen, gan gyflwyno mwy o ddysgu yn y gweithle i raglenni, a chynnig llwybrau galwedigaethol 14-16 ar gyfer y rhai y mae dysgu galwedigaethol yn fwy priodol iddynt o oedran iau. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddwyd y byddai'r Rhaglen Prentisiaethau Iau sydd wedi'i hanelu at ddysgwyr 14-16 oed yn cael ei hehangu er mwyn eu galluogi i ddilyn llwybr galwedigaethol lefel 1 neu 2 mewn coleg lleol; gan ddatblygu sgiliau ymarferol wrth ennill cymhwyster. Rydym yn cefnogi'r rhaglen hon gydag 800,000 o arian ychwanegol i'w ddefnyddio ar draws pob ardal Awdurdodau Lleol i hwyluso cydweithio agosach rhwng colegau ac ysgolion ledled Cymru. Bydd y buddsoddiad hwn yn galluogi pob rhan o Gymru i dreialu'r dull arloesol hwn o ennyn diddordeb dysgwyr mewn llwybrau galwedigaethol yn gynharach, gan gyflwyno cyfleoedd ehangach iddynt ddatblygu sgiliau ymarferol go iawn y bydd cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi.

<u>Ailsefyll TGAU</u>

2. 32 Argymhellodd yr Adolygiad o Gymwysterau (Argymhelliad 23) y dylid annog pob dysgwr 14 i 19 oed i ennill cymwysterau graddau A*-C mewn Saesneg Iaith/Cymraeg Iaith Gyntaf a Rhifedd, a rhoi'r addysg a'r cymorth priodoli iddynt wneud hynny, gan barhau y tu hwnt i 16 lle bo angen. Cefnogwyd colegau gyda chyllid ychwanegol o £1.386 miliwn yn 2015/16 ac £1.404 miliwn yn 2016/17 i gynorthwyo gyda chostau ailsefyll TGAU ychwanegol tra bod y cwricwlwm TGAU newydd yn bwrw gwreiddiau.

2.33 Rydym wedi gwrando ar bryderon y sector ac wedi newid blaenoriaethau gweinidogol yn unol â hynny. Yn wreiddiol, roedd disgwyl i'r holl ddysgwyr ennill graddau A* -C (mewn Mathemateg a Saesneg) ac ailsefyll os na chyflawnwyd hyn. Nawr mae'r blaenoriaethau gweinidogol yn dal i annog pob dysgwr i anelu at gyflawni cymwysterau A*-C ond dim ond y dysgwyr hynny a gafodd radd D y bydd disgwyl iddynt ailsefyll.

<u>Adroddiad thematig Estyn ar TGAU a CBC</u>

2.34 Mae Adolygiad thematig gan Estyn ar y gweill i adolygu TGAU Saesneg, Cymraeg, Mathemateg a Mathemateg - Rhifedd a Bagloriaeth Cymru. Y meysydd allweddol a gwmpesir fydd llesiant dysgwyr, y profiad dysgu (gan gynnwys edrych ar newidiadau i drefniadaeth y cwricwlwm ar gyfer gweithredu'r cymwysterau TGAU newydd) ac arweinyddiaeth a rheolaeth (gan gynnwys prosesau ar gyfer rheoli newid ac olrhain a monitro cynnydd dysgwyr).

2.35 Mae Cymwysterau Cymru wedi comisiynu adolygiad annibynnol o'r Dystysgrif Her Sgiliau a'i lle o fewn Bagloriaeth Cymru. Bydd yr adolygiad, sy'n cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn, yn gwerthuso model dylunio ac asesu'r Dystysgrif Her Sgiliau ar bob lefel. Mae Estyn yn trafod gyda Cymwysterau Cymru cyn cyhoeddi ei adroddiadau er mwyn helpu i lywio barn Estyn pan fydd yn cynnal ei adolygiad.

<u>Ariannu hyfforddiant: polisi cyd-fuddsoddi Llywodraeth Cymru</u>

2.36 Cyhoeddwyd y Fframwaith ar gyfer Buddsoddi ar y Cyd mewn Sgiliau ym mis Tachwedd 2014 ac fe'i datblygwyd i gydnabod nifer o heriau sy'n wynebu system sgiliau Cymru dros y degawd nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys y ffaith bod cyfran y cyflogwyr sy'n buddsoddi'n rheolaidd mewn hyfforddiant wedi aros yn ei hunfan, yr angen i wella lefelau sgiliau cyffredinol (yn enwedig ar Lefel 4 ac uwch) a'r newid gan gyflogwyr i hyfforddiant masnachol. Yr egwyddor sy'n sail i'r Fframwaith oedd bod yn glir ynglŷn â pha fuddsoddiadau'r llywodraeth fydd yn parhau a sut y bydd y rhain yn cyd-fynd â buddsoddiadau a ddylai gael eu gwneud a'u harwain gan gyflogwyr, ac ychwanegu gwerth atynt.

2.37 Yn dilyn cyhoeddi'r Fframwaith mae dau ddatblygiad allweddol wedi digwydd. Yn gyntaf, mae Llywodraeth y DU yn gweithredu Ardoll Brentisiaethau sy'n gorchymyn i gyflogwyr sydd â bil cyflog o dros £3 miliwn bob blwyddyn i dalu i mewn i'r Ardoll. Yn ail, yng ngoleuni'r ffaith mai dim ond 13% o gyflogwyr sy'n cynnig prentisiaethau ffurfiol, ymrwymiad y weinyddiaeth bresennol i gefnogi 100,000 o brentisiaethau i bobl o bob oed. Mae'r ddau ffactor hyn y tu hwnt i delerau gwreiddiol y Fframwaith a oedd, adeg ei gyhoeddi, yn nodi cyfres o egwyddorion buddsoddi ar gyfer hyrwyddo ymyriadau gan y llywodraeth a chyflogwyr.

2.38 Mae'r polisi yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng y gefnogaeth sydd ar gael gan y llywodraeth ar gyfer cyflwyno sgiliau - a fydd bob amser yn gyfyngedig - a'r buddsoddiadau a wneir gan gyflogwyr i gefnogi sgiliau eu gweithlu. Mae heriau sylweddol sy'n gysylltiedig â Brexit, llafur

medrus yn ymfudo ac argaeledd Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd, yn atgyfnerthu'r angen i fod yn glir ynghylch sut y bydd buddsoddi mewn sgiliau yn parhau yn y dyfodol. Mewn ymateb i hyn, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal adolygiad o'r Fframwaith ar gyfer Buddsoddi ar y Cyd mewn Sgiliau er mwyn sicrhau y gall barhau i fod yn ymatebol i anghenion hirdymor Cymru.

## 3. Addysg Uwch

3. 1 Newidiadau i'r cyllid ar gyfer y sector Addysg Uwch a chymorth i fyfyrwyr:

Gwybodaeth am leoliadau UCAS bedair wythnos ar ôl canlyniadau arholiadau Safon Uwch (14 Medi)

3. 2 Mae'r wybodaeth ddiweddaraf gan UCAS yn awgrymu y bu gostyngiad bach yn nifer y lleoliadau israddedig amser llawn o Gymru yn 2017, o'i gymharu â'r un adeg y llynedd (ni fydd yr wybodaeth derfynol ar gael tan ddiwedd y flwyddyn). Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn gyson â'r gostyngiad yn nifer y bobl ifanc 18 oed yng Nghymru, ac mae'r ffigurau'n parhau i fod yn uwch o gymharu â thueddiadau o flynyddoedd blaenorol.

Gwybodaeth wedi'i diweddaru ar lif trawsffiniol

3. 3 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi llif myfyrwyr israddedig amser llawn rhwng gwledydd y DU. Mae'r ffigurau'n cadarnhau bod y mwyafrif o fyfyrwyr Cymru yn parhau i fod wedi'u cofrestru mewn prifysgolion yng Nghymru. Yn ogystal, mae Cymru'n parhau i fod yn fewnforiwr net myfyrwyr addysg uwch o weddill y DU.

**Cross border flows of full-time undergraduate UK students, 2015/16**

*Enrolments, Academic year*

| | Country of Provider | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Country of Domicile | Wales | England | Scotland | N Ireland | UK |
| Wales | 35,420 | 22,600 | 425 | 25 | 58,470 |
| England | 30,895 | 956,370 | 15,995 | 1,245 | 1,004,500 |
| Scotland | 170 | 4,440 | 98,860 | 60 | 103,530 |
| N Ireland | 455 | 9,380 | 3,575 | 29,085 | 42,495 |
| UK | 66,940 | 992,840 | 118,855 | 30,415 | 1,209,045 |

*Source: HESA Student Record via StatsWales*

Myfyrwyr yr UE a myfyrwyr rhyngwladol

3. 4 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer y myfyrwyr UE a rhyngwladol israddedig ac ôl-raddedig amser llawn sydd wedi'u cofrestru mewn SAU yng Nghymru.

**Welsh full-time higher education enrolments by overseas students**

*Enrolments, Academic year*

| Level | Domicile | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|
| Undergraduate | EU | 2,745 | 2,895 | 3,055 | 3,510 |
| | Non-EU | 8,440 | 8,380 | 7,815 | 7,675 |
| Postgraduate | EU | 1,080 | 1,140 | 1,165 | 1,065 |
| | Non-EU | 8,175 | 9,290 | 8,460 | 6,830 |

*Source: HESA Student Record via StatsWales*

Y newidiadau sy'n deillio o argymhellion Adolygiad Diamond

3. 5 Cadarnhaodd ymateb Llywodraeth Cymru i adolygiad Diamond y byddai newid sylweddol i'r cymorth i fyfyrwyr yng Nghymru gan symud tuag at system decach a chynaliadwy o gyllido addysg uwch.

3. 6 Ym mis Gorffennaf 2017, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y cymorth a fydd ar gael i fyfyrwyr israddedig amser llawn, myfyrwyr israddedig rhan-amser a myfyrwyr ôl-raddedig o ddechrau'r flwyddyn academaidd 2018/19. Bydd y pecyn hwn yn unigryw yn y DU a bydd yn annog myfyrwyr o bob cefndir i fynd ymlaen i addysg uwch.

3. 7 Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i gynaliadwyedd a pha mor gynaliadwy yw pob argymhelliad wrth lunio'r ymateb i argymhellion Adolygiad Diamond - mae dadansoddiad llawn o'r costau i'w weld yn atodiad i.

3. 8 Yn groes i'r system yn Lloegr, mae'r egwyddor o gadw cefnogaeth y cyhoedd ar gyfer cymorth cynhaliaeth yn cael ei hyrwyddo'n amlwg yn ymateb Llywodraeth Cymru. Mae'r ymatebion i Adolygiad Diamond a'r ymgynghoriad diweddar yn dangos tystiolaeth o gonsensws cryf bod lefel y cymorth cynhaliaeth yn fater pwysicach i fyfyrwyr na lefel ffioedd dysgu neu gymorth gyda ffioedd dysgu.

Y model ariannol diweddaraf o gostau'r system cymorth i fyfyrwyr

3. 9 Mae Atodiad i yn darparu'r rhagdybiaethau manwl a'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer cymorth i fyfyrwyr o 2018/19 ymlaen. Mae'n bwysig nodi bod y rhagolygon yn adlewyrchu proses o weithredu fesul cam a pharhau i ddiogelu'r garfan o fyfyrwyr a ddechreuodd eu cyrsiau cyn mis Medi 2018. Roedd yn rhaid gwneud nifer o ragdybiaethau i ddarparu rhagolygon sy'n cwmpasu sawl blwyddyn i'r dyfodol, yn enwedig o ran niferoedd y myfyrwyr. Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch niferoedd y myfyrwyr israddedig amser llawn, israddedig rhan-amser ac ôl-raddedig yn y dyfodol, mae'r rhagolygon yn seiliedig ar ragdybiaethau darbodus, sy'n cael eu hadolygu a'u newid yn barhaus wrth i ragor o ddata ddod ar gael.

Benthyciadau i fyfyrwyr ôl-raddedig

3. 10 Mae benthyciadau i fyfyrwyr Meistr ôl-raddedig ar gael i fyfyrwyr sy'n dechrau eu hastudiaethau yn 2017/18. Mae benthyciad ar gael waeth pa fath o ddarparwr y mae'r myfyriwr yn astudio ag ef ac mae darparwyr eraill wedi gallu gwneud cais am ddynodiad penodol ar gyfer cyrsiau ôl-raddedig ers mis Gorffennaf 2017.


3. 11 Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cwblhau ei pholisi ar gyfer cymorth i raddau Meistr ôl-raddedig yn 2018/19. Mae gwerth y benthyciad yn debygol o gynyddu ac mae opsiynau ar gyfer darparu cymorth ychwanegol i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn cael eu hystyried.

3. 12 Yn ogystal, bydd cymorth ar gael ar gyfer astudiaethau doethurol yn 2019/20. Bydd gwybodaeth am y meini prawf cymhwyster ar gael cyn bo hir.

Incwm addysg uwch

3. 13 Fel y dangosir yn y siart isod, mae sefyllfa ariannol y sector AU yng Nghymru wedi gwella o flwyddyn i flwyddyn mewn termau arian parod, er gwaethaf newidiadau polisi ac amgylchedd economaidd heriol.

**Incwm i sector AU Cymru mewn termau arian parod, yn ôl blwyddyn** academaidd




Ffynhonnell: Dadansoddiad mewnol Cofnod Cyllid HESA ac Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru

3. 14 Rhwng 2010/11 a 2015/16, gostyngodd incwm o grantiau'r corff cyllido oddeutu £232 miliwn (o £416 miliwn i £184 miliwn), ond mae incwm o ffioedd dysgu amser llawn wedi cynyddu oddeutu £362 miliwn (o £229 miliwn i £591 miliwn). Yn gyffredinol, mae incwm i'r sector wedi cynyddu oddeutu £270 miliwn dros y cyfnod, a rhagwelir y bydd yn parhau i gynyddu yn y dyfodol.

Costau staff a diswyddiadau wedi'u cynllunio

3. 15 Mae nifer o sefydliadau wrthi'n adolygu eu strwythurau staffio drwy ymgynghori â'u staff ac undebau llafur. Mae prifysgolion yng Nghymru yn gyrff annibynnol

ac o'r herwydd eu cyrff llywodraethu sy'n gyfrifol am faterion staffio. Nid oes gan Lywodraeth Cymru locws yn y materion hyn, ond byddem yn disgwyl i'n sefydliadau weithio mewn partneriaeth â'u staff.

3. 16 Bydd diwygiadau Diamond yn helpu i sicrhau sefydlogrwydd a chynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yng Nghymru. Fodd bynnag, bydd y diwygiadau'n cymryd nifer o flynyddoedd i'w gweithredu ac mae angen inni roi cymaint o gymorth â phosibl i sefydliadau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gystadleuol. I'r perwyl hwnnw, cadarnhaodd fy llythyr cylch gwaith i'r Cyngor Cyllido (ar gyfer 2017/18) ein bod yn disgwyl i setliadau ariannol CCAUC yn y dyfodol gynyddu ym mhob blwyddyn ariannol yn ystod oes y Llywodraeth hon.

<u>Contractau dim oriau</u>

3. 17 Llofnododd prifysgolion Cymru God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi ym mis Gorffennaf 2017 - y cyntaf yn y DU. Wrth weithio tuag at gydymffurfio â'r Cod, bydd prifysgolion yn ceisio cydymffurfio â'r egwyddor ganlynol, sy'n cynnwys elfen sy'n ymwneud â chontractau dim oriau:

- Sicrhau na chaiff hunangyflogaeth ffug ei chreu ac nad yw cynlluniau ambarél a chontractau dim oriau yn cael eu defnyddio'n annheg neu fel modd o:
    - osgoi, neu hwyluso osgoi, talu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol a'r isafswm cyflog perthnasol;
    - Rhoi gweithwyr dan anfantais ddiangen o ran cyflog a hawliau cyflogaeth, diogelwch swyddi a chyfleoedd gyrfa.
    - Osgoi cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch.

3. 18 Mae gan CCAUC rôl o ran monitro gweithrediad y Cod a bydd yn adrodd ar gynnydd i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn.

<u>Sut y mae'r sector AU yn rhoi ystyriaeth i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)</u>

3. 19 Mae gan brifysgolion gyfrifoldeb statudol cyfyngedig, sef cymryd rhan mewn bwrdd gwasanaethau cyhoeddus fel cyfranogwr gwadd, ond fel arall nid ydynt yn dod o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth hon. Nid yw'n ofynnol iddynt gynnal asesiad o anghenion statudol, na rhoi amcanion llesiant ar waith ac adrodd arnynt. Fodd bynnag, mae prifysgolion wedi ymgysylltu â'r Ddeddf mewn amrywiaeth o ffyrdd drwy ymgysylltiad dinesig, ymchwil, profiad myfyrwyr, y cwricwlwm a rheoli a defnyddio eu hystadau. Mae pob un o'r wyth prifysgol yng Nghymru yn eistedd ar un neu fwy o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus.

3. 20 Ym mis Ionawr cyhoeddodd CCAUC yr adroddiad Addysg Uwch ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n rhoi enghreifftiau o rai o'r camau a gymerir gan brifysgolion a nodwyd yn erbyn pob un o'r saith nod llesiant. Mae'r camau hyn yn parhau i ddatblygu ac maent yn enghreifftiau nodweddiadol o sut y mae

prifysgolion yn ymgysylltu â'r agenda hon. Mae enghraifft o sut y mae Prifysgolion yn cefnogi gwaith yn y maes hwn i'w gweld yn atodiad ii.

Unrhyw gystadleuaeth gan ddarparwyr newydd addysg uwch

3. 21 Mae'r system Reoleiddio a gyflwynwyd gan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 wedi'i chynllunio i ganiatáu i ymgeiswyr newydd (sef sefydliadau yng Nghymru sy'n elusennau) ennill dynodiad awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr ar gyfer cyrsiau AU. Er mwyn cael dynodiad awtomatig, mae'n rhaid i CCAUC gymeradwyo cynlluniau ffioedd a mynediad sefydliadau. Darperir rhagor o wybodaeth i ymgeiswyr o'r fath ar wefan CCAUC.

3. 22 Mae CCAUC newydd ddechrau ymgynghoriad ar broses porth newydd ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r sector AU rheoledig yng Nghymru, sy'n dymuno bodloni disgwyliadau ansawdd http://www.hefcw.ac.uk/publications/circulars/circulars_cy.aspx Mae'r rhain yn drefniadau tebyg i'r rhai sydd ar waith yn Lloegr a Gogledd Iwerddon (gyda chyfnod prawf o bedair blynedd), gan ystyried gofynion gwahanol Deddf AU (Cymru).

*Dynodiad*

3. 23 O'r flwyddyn academaidd 2017/18, mae dau lwybr y gall sefydliad yng Nghymru ei ddilyn i wneud cais i'w gyrsiau cymwys gael eu dynodi ar gyfer mynediad i gymorth myfyrwyr gan Lywodraeth Cymru: mae Atodiad iii yn darparu gwybodaeth am y ddau lwybr hyn

Cryfhau Cynlluniau Ffioedd a Mynediad

3. 24 Nododd ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamond y byddem yn gofyn i CCAUC ymchwilio i sut y gellir cryfhau cynlluniau ffioedd a mynediad ymhellach yn unol â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ehangu mynediad i addysg uwch a sicrhau mynediad teg iddo. Yn fy llythyr cylch gwaith i CCAUC ar gyfer 2017/18 gofynnais i CCAUC weithio gyda Llywodraeth Cymru ar drefniadau i gryfhau cynlluniau ffioedd a mynediad a hefyd i gynorthwyo Llywodraeth Cymru yn ei gwaith o werthuso diwygiadau Diamond drwy ystyried y dystiolaeth bresennol sy'n ymwneud ag ehangu mynediad a sut y gellid ei chryfhau.

Unrhyw gynlluniau i reoleiddio'r sector addysg uwch ran-amser yn llawn erbyn 2020-21

3. 25 Yn ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamond cynigiwyd datblygu system ran-amser wedi'i rheoleiddio'n llawn erbyn 2021.

3. 26 Ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar adroddiad Diamond, ymddengys mai symud i system ran-amser wedi'i rheoleiddio'n llawn yw'r trywydd cywir i'w ddilyn. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod nifer o gymhlethdodau sy'n golygu bod

angen mwy o waith ar gyfathrebu, dealltwriaeth o'r system a'r amserlen ar gyfer ei rhoi ar waith.

3. 27 Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i werthuso'r dystiolaeth yn llawn, i sicrhau dealltwriaeth lawn o'r manylion ac i sefydlu llinell amser ar gyfer cyflwyno system ddiwygiedig. Bydd angen cysylltiad agos rhwng hyn a'r gwaith sy'n cael ei wneud ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Hazelkorn.

Effaith y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu ar SAU Cymru

3. 28 Polisi gan Lywodraeth y DU yw'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu. Mae cymryd rhan yn y Fframwaith yn wirfoddol ac *ar hyn o bryd* mater i ddarparwyr unigol yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch yw penderfynu a ydynt am gymryd rhan ai peidio.

3. 29 Wedi dweud hynny, bydd Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi cydsyniad cyn y gall darparwyr AU yng Nghymru wneud cais i gymryd rhan yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu, *ar ôl i'r adran berthnasol o'r Ddeddf ddod i rym*. Nid yw Llywodraeth y DU wedi cadarnhau'r amserlen ar gyfer pryd y bydd angen cydsyniad Gweinidogion Cymru. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd hyn ar waith tan o leiaf Blwyddyn 4 y Fframwaith, h.y. cylch ceisiadau 2018/19.

3. 30 Mae'r adborth yn nodi bod rhai darparwyr yng Nghymru yn dymuno cymryd rhan yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu er mwyn osgoi anfantais gystadleuol neu niwed i enw da. Er nad yw'r meini prawf ar gyfer gweithredu'r Fframwaith yn rhai y byddai Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno, gwnaeth Llywodraeth y DU nifer o newidiadau i gynllun y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a roddodd sefydliadau yng Nghymru ar lefel fwy cyfartal â'u cymheiriaid yn Lloegr. Roedd hyn yn cynnwys aseswyr y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu yn ystyried y cyd-destun Cymreig.

3. 31 Dewisodd saith sefydliad yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch wneud cais am Ail Flwyddyn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a chyhoeddwyd y graddau ar 22 Mehefin. Fodd bynnag, rwy'n bendant na fydd ffioedd dysgu yng Nghymru yn gysylltiedig â graddau'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i osod lefelau ffioedd dysgu yn unol â'i meini prawf ei hun, gan ystyried cynaliadwyedd ariannol, sut rydym yn cynnal ein cystadleurwydd rhyngwladol a'r effaith ar fyfyrwyr.

Prentisiaethau Lefel Uwch a Gradd

3. 32 Dros y tair blynedd diwethaf gwelwyd twf sylweddol mewn Prentisiaethau Uwch. Ar hyn o bryd mae 59 o fframweithiau Prentisiaethau Uwch ar gael sy'n cwmpasu lefelau 4-7. Roedd Prentisiaethau Uwch yn cynrychioli 25 y cant o

brentisiaeth a ddechreuwyd yn 2015/16, 4 pwynt canran yn uwch na ffigur 2014/15[4].

3. 33 Yn 2016/17 datblygodd swyddogion saith fframwaith prentisiaethau newydd, chwech ohonynt yn Brentisiaethau Uwch (85% o'r holl fframweithiau newydd). Mae swyddogion hefyd wedi comisiynu deg o fframweithiau prentisiaethau newydd ar gyfer 2017/18, gyda naw o'r rhain yn fframweithiau Prentisiaeth Uwch (90% o'r holl fframweithiau newydd) i ddiwallu anghenion cyflogwyr Cymru.

3. 34 Mae Prentisiaethau Gradd wrthi'n cael eu datblygu yng Nghymru ar hyn o bryd. Ym mis Rhagfyr 2016, gwahoddodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) gynlluniau gan sefydliadau i ddatblygu a chyfuno cymwysterau galwedigaethol ac academaidd ar lefel gradd a allai ffurfio rhan o brentisiaeth. Nododd CCAUC beirianneg, gweithgynhyrchu uwch a TG/cyfrifiadura fel meysydd penodol o ddiddordeb.

3. 35 Rydym yn ymgymryd â dull cyd-ddatblygu gan weithio gyda CCAUC a sefydliadau AU i ddatblygu Prentisiaethau Gradd ac opsiynau cyflwyno. Mae polisi newydd yn cael ei ddatblygu sy'n dod â phrentisiaethau ac addysg uwch ynghyd - sectorau â phrosesau a diwylliannau gwahanol - felly mae angen y cyfraniad a'r safbwyntiau ehangaf posibl gan randdeiliaid.

3. 36 Disgwylir i'r corff strategol newydd ar gyfer yr holl addysg ôl-16 yng Nghymru fod â rôl i gryfhau'r cydlyniad rhwng y sectorau addysg ôl-16 drwy ddarparu llwybrau i addysg a hyfforddiant lefel uwch, lle y gall pobl symud rhwng llwybrau academaidd a galwedigaethol.

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

3. 37 Cefnogir datblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn addysg uwch gan Lywodraeth Cymru drwy'r cyllid a ddarperir i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Sefydlwyd y Coleg yn 2011 er mwyn cynllunio, datblygu, cydlynu a hybu addysg uwch cyfrwng Cymraeg.

3. 38 Cyhoeddwyd adroddiad terfynol y grŵp gorchwyl a gorffen a sefydlwyd i adolygu gweithgareddau a rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y dyfodol ar 25 Gorffennaf 2017. Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion ynglŷn â gweithgarwch y Coleg yn y dyfodol gan ganolbwyntio ar sicrhau bod cyllidebau a gweithgareddau yn y dyfodol yn cael eu targedu at feysydd a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac at annog rhagor o fyfyrwyr i barhau â'u hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

3. 39 Daw'r adroddiad i'r casgliad fod angen parhau i gefnogi'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn AU os am gynnal yr enillion cyfredol a datblygu'r ddarpariaeth ymhellach yn unol â Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

---

[4] Llywodraeth Cymru, Addysg Bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol: http://gov.wales/statistics-and-research/further-education-work-based-learning-community-learning/?lang=cy

3. 40 Mae'r adroddiad hefyd yn argymell ymestyn rôl y Coleg i gynnwys y sectorau ôl-16, (AB a dysgu seiliedig ar waith).

<u>Adolygiad annibynnol o'r Ddarpariaeth Conservatoire a Chelfyddydau Perfformio yng Nghymru</u>

3. 41 Gofynnodd y Gweinidog blaenorol dros Addysg a Sgiliau i'r Arglwydd Murphy o Dorfaen gynnal adolygiad o'r ddarpariaeth conservatoire a'r celfyddydau perfformio yng Nghymru. Dechreuodd ei waith ar yr adolygiad ym mis Ebrill 2016 ac mae wedi ymgynghori'n helaeth drwy ymgysylltu ar lafar ac yn ysgrifenedig â'r sector addysg uwch a'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Mae'r Arglwydd Murphy bellach wedi cwblhau ei waith a bydd yn cyflwyno ei adroddiad cyn bo hir.

<u>Y Brifysgol Agored yng Nghymru</u>

3. 42 Ers 2013/14, mae CCAUC wedi rhoi ystyriaeth arbennig i bennu'r dyraniadau cyffredinol i'r Brifysgol Agored yng Nghymru. Yng ngoleuni'r newidiadau yn y gyllideb, cydnabu'r Cyngor nad oes gan y Brifysgol Agored incwm o ffioedd israddedigion amser llawn er mwyn gwrthbwyso unrhyw ostyngiadau yn y llinellau cyllideb eraill. O ganlyniad, mae CCAUC yn monitro'r effaith gyffredinol ar y Brifysgol Agored ac yn gwneud addasiad er mwyn gwneud iawn am ei hanallu i ddisodli cyllid y strategaeth gydag incwm o ffioedd israddedigion amser llawn, ac i wneud iawn am golli'r cyllid premiwm ar gyfer myfyrwyr rhan-amser.

3. 43 Yn 2016/17, gan ailadrodd yr hyn a wnaethpwyd yn y blynyddoedd blaenorol, dyfarnodd CCAUC daliad untro i'r Brifysgol Agored, a oedd gyfwerth â'r cyllid strategaeth y mae wedi'i golli, sef y swm cyfatebol o arian y byddai wedi'i dderbyn yn 2015/16 ar gyfer y premiwm rhan-amser, pe na bai CCAUC wedi'i ddileu, a swm yr arian addysgu craidd ar gyfer ôl-raddedigion rhan-amser a dderbyniodd y Brifysgol Agored yn y flwyddyn academaidd 2015/16 cyn i'r cyllid hwnnw gael ei ddileu. Bydd CCAUC yn darparu'r un swm o arian ychwanegol i'r Brifysgol Agored yn 2017/18 (£1.655 miliwn).

3. 44 Yn ogystal, mae CCAUC yn parhau i fod yn ymrwymedig i fonitro sefyllfa ffioedd yn unig y Brifysgol Agored yng Nghymru, ac mae wedi rhoi proses ar waith lle y bydd data monitro diwedd y flwyddyn yn cael eu defnyddio i benderfynu ar gyflwyno unrhyw ddarpariaeth ffioedd-yn-unig sydd heb ei hariannu. Fel cymhelliad i barhau i ehangu'r ddarpariaeth ran-amser, yn dibynnu ar fforddiadwyedd, bydd CCAUC yn dyfarnu arian yn ôl-weithredol i'r Brifysgol Agored er mwyn talu'r elfen ffioedd-yn-unig.

## Meysydd trawsbynciol

<u>Effeithiau posibl y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd</u>

4. 1 Mae ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn codi pryderon ynghylch yr effaith ar staff yr Undeb Ewropeaidd sy'n gweithio ym Mhrifysgolion Cymru, nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio yng Nghymru, mynediad i gyllid ar gyfer rhaglenni ymchwil rhyngwladol cydweithredol, a chymorth ar gyfer symudedd rhyngwladol i staff a myfyrwyr. Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru "Diogelu Dyfodol Cymru" a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2017 yn trafod effaith Brexit ar y sector addysg uwch ac yn nodi'r materion y mae angen mynd i'r afael â hwy yn nhrafodaethau Llywodraeth y DU gyda'r Undeb Ewropeaidd ac ym mholisi Llywodraeth y DU ar ymfudo a chefnogaeth i wyddoniaeth. Mae papur polisi diweddar Llywodraeth Cymru "Tegwch o ran Symudiad Pobl" yn trafod effaith polisi ymfudo yn fanylach, ac mae hefyd yn cwmpasu'r effaith ar y sector addysg uwch.

4. 2 Mae cyfanswm y cyllid a gafwyd ar gyfer dysgwyr ers 2011 drwy'r rhaglenni Erasmus+ a Leonardo da Vinci (rhaglen flaenorol yr Undeb Ewropeaidd) yn dod i gyfanswm o ychydig dros €1.2miliwn. Yn yr un modd, mae myfyrwyr rhyngwladol a'u hymwelwyr yn cyfrannu'n sylweddol at ffyniant economaidd a diwylliannol Cymru, gan gynhyrchu £530 miliwn o enillion allforio yn 2014, sy'n cyfateb i 4% o'r holl allforion yng Nghymru. Bu hyn o gymorth i greu 7,600 o swyddi a chynhyrchu tua £400 miliwn o Werth Ychwanegol Gros Cymru dros yr un cyfnod.

<u>Rhaglen Erasmus+: symudedd myfyrwyr a staff</u>

4. 3 Mae cyfradd gyfranogi Cymru yn Erasmus+, a'r rhaglenni dysgu Gydol Oes a'i rhagflaenodd, sy'n caniatáu i bobl astudio neu ymgymryd â phrofiad gwaith/gwirfoddoli mewn gwlad arall yn yr UE, yn dda. Ar hyn o bryd mae Cymru'n cael budd sylweddol drwy gymryd rhan mewn partneriaethau Ewropeaidd. Yn ogystal â gwerth diwylliannol ac addysgol, mae iddo fudd ariannol ac economaidd hefyd.

4. 4 Mae Addysg Uwch yng Nghymru wedi denu €9.8m o gyllid Erasmus+ rhwng 2014 a 2016. O'r swm hwn, roedd €9m yn ymwneud â symudiadau myfyrwyr a staff, gyda'r gweddill yn cefnogi datblygiad partneriaethau strategol. Cafwyd 34 o geisiadau prosiect llwyddiannus gan Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru.

4. 5 Yn ystod 2014 a 2015, (y data diweddaraf sydd ar gael) cefnogodd Erasmus+ 1,782 o fyfyrwyr i astudio neu ddilyn hyfforddiaethau a 312 o gynlluniau addysgu neu hyfforddi. Yn ogystal, cafodd 162 o fyfyrwyr a staff eraill, a oedd yn dod i mewn ac allan o'r wlad, leoliadau drwy'r cynllun Symudedd Credyd Rhyngwladol.

4. 6 Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â llywodraeth y DU ac eraill i sicrhau bod dysgwyr o Gymru yn parhau i weld manteision rhaglenni Erasmus+ er gwaethaf y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd.

Yr effaith ar ymchwil addysg uwch

4. 7 Mae adroddiad Technopolis "The Role of EU Funding in Research and Innovation" a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017 yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyllid yr Undeb Ewropeaidd sy'n rhoi incwm ymchwil ac arloesedd o tua €1.1 biliwn i sefydliadau'r DU (h.y. sefydliadau cyhoeddus a phreifat), sy'n cyfateb i fwy na 10% o gyfanswm cymorth y llywodraeth ar gyfer ymchwil ac arloesedd yn y DU a thua 5% o wariant gros domestig y DU ar ymchwil a datblygu (gan gynnwys cyllid cyhoeddus a phreifat).

4. 8 Mae'r adroddiad yn nodi bod Sefydliadau Addysg Uwch wedi cael tua £725 miliwn mewn incwm grant ymchwil gan gyrff llywodraethau'r Undeb Ewropeaidd (a allai gynnwys Aelod-wladwriaethau unigol yn ogystal â'r Undeb Ewropeaidd) yn 2014/15 - sy'n cyfateb i *12% o gyfanswm incwm SAU y DU, sy'n £5.9 biliwn, o grantiau a chontractau ymchwil, neu tua 25% o'r £2.75 biliwn mewn grantiau ymchwil a ddarperir gan gyrff Llywodraeth y DU*. Mae'r adroddiad yn nodi bod cymorth ERDF i brosiectau ymchwil ac arloesi wedi bod yn fwy sylweddol yng Nghymru na chyllid gan y rhaglen Horizon 2020.

4. 9 Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru "Diogelu Dyfodol Cymru" yn tynnu sylw at bwysigrwydd gallu ym meysydd gwyddoniaeth, ymchwil ac arloesi ar gyfer Cymru a'r DU, a'n pryder y bydd ymchwil yng Nghymru yn cael ei effeithio'n ddifrifol yn sgil gostyngiad mewn incwm, exodus o ymchwilwyr a methiant i ddenu talent newydd os na chefnogir cyfranogiad parhaus mewn rhaglenni ymchwil Ewropeaidd. Dywed papur trafod diweddar Llywodraeth y DU ar gytundeb ar wyddoniaeth ac arloesi ar gyfer y dyfodol a gyhoeddwyd ar 6 Medi y bydd y DU yn ceisio *cytuno ar gytundeb gwyddoniaeth ac arloesi pellgyrhaeddol gyda'r Undeb Ewropeaidd sy'n sefydlu fframwaith ar gyfer cydweithio yn y dyfodol. Mae amrywiaeth o gynseiliau presennol ar gyfer cydweithio y gall y DU a'r Undeb Ewropeaidd adeiladu arnynt, ond mae ein perthynas agos unigryw yn golygu y gallai fod yn werth llunio cytundeb mwy uchelgeisiol. Mae'r DU yn gobeithio cael trafodaeth lawn ac agored gyda'r Undeb Ewropeaidd am yr holl opsiynau hyn fel rhan o'r trafodaethau ar ein partneriaeth yn y dyfodol*. Nid yw'r papur yn nodi'r dull a ffefrir gan Lywodraeth y DU. Edrychwn ymlaen at eglurhad pellach ar y mater hwn.

Cynigion Hazelkorn i greu un corff goruchwylio ar gyfer AB/AU

4. 10 Un o'r argymhellion allweddol yn yr adolygiad a gynhaliwyd gan yr Athro Ellen Hazelkorn o oruchwyliaeth addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru oedd y dylid sefydlu corff hyd braich newydd. I gyflawni hynny bydd angen Bil gan y Cynulliad ac i'r perwyl hwn cyhoeddwyd Papur Gwyn ar 20 Mehefin 2017 ar gyfer ymgynghoriad a fydd yn dod i ben ar 23 Hydref.

4. 11 Mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylid sefydlu'r awdurdod strategol newydd hwn - y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru (Y Comisiwn) - i ddarparu goruchwyliaeth, cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Wrth sefydlu'r Comisiwn newydd rwy'n bwriadu taro'r cydbwysedd cywir rhwng cefnogi sefydliadau cryf ac annibynnol a sicrhau

atebolrwydd priodol ar gyfer arian trethdalwyr drwy'r mesurau diogelu y mae gan ddysgwyr hawl i'w disgwyl.

4. 12 Yn dilyn yr ymgynghoriad, byddwn yn dadansoddi ac yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion. Byddwn yn eu defnyddio'n sail i ymgynghoriad technegol a fydd yn rhoi disgrifiad llawnach o siâp a gweithrediad y Comisiwn. Yna byddwn yn mynd ati i ddatblygu cynigion deddfwriaethol, cyn diwedd y Cynulliad presennol.

**Atodiad i**

**Y model ariannol diweddaraf o gostau'r system cymorth i fyfyrwyr ar gyfer 2017/18, 2018/19 (ac wedyn os bydd yn bodoli)**

Mae'r dadansoddiad hwn yn darparu costau arfaethedig gweithredu'r polisïau a amlinellir yn ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamond. Caiff costau rhagamcanol grantiau myfyrwyr sydd bron yn arian parod, gwariant ar fenthyciadau myfyrwyr (Gwariant a Reolir yn Flynyddol) a grantiau myfyrwyr nad ydynt yn arian parod (Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau) eu cynnwys, ar sail blwyddyn ariannol. Mae egwyddor gwarchod cohort yn golygu mai dim ond i fyfyrwyr newydd y bydd y diwygiadau yn berthnasol, ac y bydd y polisïau presennol yn parhau i gael eu hariannu ar gyfer myfyrwyr cymwys sydd eisoes yn y system. Caiff y diwygiadau a gyhoeddwyd eu cyflwyno'n raddol, felly, dros sawl blwyddyn (yn dibynnu ar lefel a dull yr astudio).

Bu'n rhaid gwneud nifer o ragdybiaethau er mwyn llunio rhagolygon sawl blwyddyn i'r dyfodol. Bu'n rhaid gwneud hyn yn benodol mewn perthynas â niferoedd myfyrwyr yn y dyfodol. Dilynwyd gweithdrefnau llywodraethiant sydd wedi'u hen sefydlu o fewn Llywodraeth Cymru i gytuno ar y rhagdybiaethau hyn a'u rheoli. Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch niferoedd israddedigion llawnamser, ac israddedigion ac ôlraddedigion rhan-amser yn y dyfodol, mae'r rhagolygon yn seiliedig ar ragdybiaethau gofalus. Mae'r rhagolygon a'r rhagdybiaethau yn cael eu hadolygu a'u newid yn barhaus, wrth i fwy o ddata ddod i law.

Yn y gorffennol, mae niferoedd israddedigion llawnamser wedi bod yn anwadal, ond mae'r model yn rhagdybio y bydd nifer y myfyrwyr cyfredol yn parhau yr un fath, er bod nifer y boblogaeth 18 oed yn gostwng. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf a ddaeth i law drwy UCAS yn awgrymu bod nifer yr israddedigion llawnamser a gafodd le i astudio yn 2017/18 yn is. Penderfynwyd cynnal adolygiad, felly, o'r rhagdybiaethau byrdymor ynghylch niferoedd myfyrwyr, er mwyn helpu i bennu cyllidebau ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf. Caiff y rhagolygon isod, felly, eu diweddaru ar ôl yr adolygiad ffurfiol ac ar ôl cymeradwyo'r newidiadau i ragdybiaethau a rhagolygon y model. Mae cynnydd bychan yn niferoedd y myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau gradd ac ôl-radd rhan-amser hefyd wedi'i gynnwys. Byddai unrhyw ŵyro yn y dyfodol o'r rhagdybiaethau ynghylch niferoedd myfyrwyr yn effeithio ar unrhyw bolisi, nid dim ond y diwygiadau a gyhoeddwyd.

Gallai'r rhagdybiaethau macro-economaidd cyfredol sy'n sail i'r rhagolygon hyn (ee amcanestyniadau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o chwyddiant a thwf mewn enillion yn y dyfodol) newid, sydd â goblygiadau i'r costau a amlinellir yn y rhagolygon cyfredol. Caiff y rhagolygon ar gyfer Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau yn y dyfodol eu diwygio'n rheolaidd hefyd, fel mater o drefn, wrth i'r data economaidd a'r data benthyca/cael benthyg diweddaraf ddod i law. Bydd ffactorau sydd y tu hwnt i

reolaeth Llywodraeth Cymru yn dylanwadu ar hyn hefyd (ee y gyfradd ddisgownt a bennir gan Drysorlys EM ac a gymhwysir i ad-daliadau benthyciadau). Yn ogystal, disgwylir i'r ffi Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau gynyddu yn unol â maint y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr ac, er bod y model wedi caniatáu ar gyfer hyn gymaint â phosibl, nid yw'n bosibl rhagweld union raddau'r cynnydd yn y dyfodol ar hyn o bryd.

Yn y tabl isod mae'r costau rhagamcanol ar gyfer y polisïau cyllid myfyrwyr a gyhoeddwyd. Mae'r rhagolygon hyn yn rhoi ystyriaeth i'r cynllun i gyflwyno'n raddol y diwygiadau ar gyfer myfyrwyr newydd a ddaw yn sgil Adolygiad Diamond o flwyddyn academaidd 2018/19 (yn achos cymorth i israddedigion) a 2019/20 (yn achos cymorth lefel Meistr i ôlraddedigion).

**Costau rhagamcanol polisïau cyllid myfyrwyr gan gyflwyno'n raddol ddiwygiadau yn sgil Adolygiad Diamond**

*Forecasts of financial year costs*

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Full-time undergraduate** | | | | | |
| Maintenance Grant | £135m | £175m | £225m | £270m | £285m |
| Maintenance Loan outlay | £265m | £280m | £290m | £310m | £340m |
| Maintenance Loan at RAB | £50m | £55m | £60m | £70m | £80m |
| Tuition Fee Grant | £270m | £225m | £130m | £55m | £15m |
| Tuition Fee Loan outlay | £215m | £285m | £405m | £505m | £565m |
| Tuition Fee Loan at RAB | £40m | £55m | £75m | £85m | £95m |
| **Part-time undergraduate** | | | | | |
| Maintenance Grant | £5m | £10m | £20m | £25m | £25m |
| Maintenance Loan outlay | £0m | £5m | £10m | £15m | £20m |
| Maintenance Loan at RAB | £0m | * | * | £5m | £5m |
| Tuition Fee Loan outlay | £5m | £10m | £10m | £10m | £10m |
| Tuition Fee Loan at RAB | * | * | * | * | * |
| **Full-time postgraduate Masters** | | | | | |
| Contribution to Costs Grant | £0m | £0m | £10m | £15m | £15m |
| Contribution to Costs Loan | £15m | £30m | £30m | £35m | £40m |
| Loan at RAB | £5m | £5m | £5m | £5m | £5m |
| **Part-time postgraduate Masters** | | | | | |
| Contribution to Costs Grant | £0m | £0m | £5m | £5m | £5m |
| Contribution to Costs Loan | £5m | £10m | £10m | £10m | £15m |
| Loan at RAB | * | * | * | * | * |
| **Total costs** | | | | | |
| Near-cash grants | £410m | £410m | £390m | £365m | £345m |
| Loan outlay | £510m | £615m | £750m | £885m | £985m |
| RAB of loans | £95m | £115m | £145m | £170m | £190m |

*Source: Higher Education Division internal analysis, Welsh Government*

Notes:

Figures are rounded to the nearest £5m; individual figures may not sum to totals.

* Indicates figure rounds to zero, but is greater than zero.

Ni fwriedir rhyddhau adnoddau sydd bron yn arian parod i'w hailddyrannu i rannau eraill o Addysg Uwch yn 2018-19. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffordd y mae costau blwyddyn academaidd yn wahanol dros flynyddoedd ariannol, ar gyfer gwahanol fathau o gymorth i fyfyrwyr. Yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19, caiff hanner yr arbedion yn sgil cael gwared ar y grant ffioedd dysgu, ar gyfer israddedigion llawnamser newydd ym mlwyddyn academaidd 2018/19, eu sicrhau. Ar yr un pryd, bydd angen talu am ddwy ran o dair cost darparu grantiau cynhaliaeth uwch i israddedigion llawnamser a rhan-amser. Mae effaith net y rhain ar gostau adnoddau sydd bron yn arian parod yn niwtral, o gymharu â 2017-18.

**Atodiad ii**

**Sut mae'r sector Addysg Uwch yn rhoi ystyriaeth i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**

Mae sawl prifysgol wedi datblygu grwpiau o fewn eu strwythur llywodraethiant i gefnogi a datblygu datblygiadau cynaliadwy ym mhob rhan o'r brifysgol. Mae Prifysgol Bangor wedi datblygu'r Lab Cynaliadwyedd sy'n rhestru 16 o feysydd gweithgarwch ar ei wefan. Yn ddiweddar, cydnabuwyd proffil y Brifysgol o ran cynaliadwyedd, pan roddwyd safle rhif 16 iddi o blith 516 o brifysgolion ledled y byd yn Rhestr Universitas Indonesia Greenmetric. Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant hefyd wedi mabwysiadu dull tebyg drwy ddatblygu'r Sefydliad Arfer Cynaliadwy, Arloesi ac Effeithiolrwydd Adnoddau (INSPIRE) sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwyedd o fewn y cwricwlwm, y gymuned, diwylliant a'r campws.

Dyma rai enghreifftiau o waith yn y maes hwn:

- Prifysgol Metropolitan Caerdydd - pwyslais cryf ar ei chynaliadwyedd ei hun sydd wedi tyfu o egwyddor cynaliadwyedd amgylcheddol ar y campws, gan gynnwys amrywiaeth gynyddol o gamau, ee datblygu'r Brifysgol Iach, a'r rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol a gafodd ei chanmol yn fawr.

- Prifysgol Caerdydd - gweithredu rhaglen rheoli amgylcheddol. Mae'r brifysgol am weithredu rhaglen gyfalaf sylweddol a fydd yn ceisio sicrhau bod ei hystâd gyfan yn cyrraedd targedau perfformiad amgylcheddol penodol drwy inswleiddio ei hadeiladau yn fwy a gwneud mwy o welliannau i'r systemau mecanyddol a thrydanol. Mae gan y Brifysgol bolisïau cynhwysfawr ac mae'n cymryd camau i wella ymchwil ynghylch lles myfyrwyr/staff o ran datblygu a deall datblygiadau cynaliadwy drwy'r Sefydliad Ymchwil Lleoedd Cynaliadwy. Mae'r sefydliad hwn wedi adeiladu ar waith y Ganolfan ar gyfer Ymchwil Busnes ac Atebolrwydd a oedd yn arloeswr yn y maes hwn ers pan gychwynnodd yn 2001.

- Prifysgol Abertawe - rhaglenni arloesol, cadarn ar gyfer myfyrwyr a staff er mwyn hyrwyddo perfformiad amgylcheddol gwell ar y campws a chodi ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd ac annog pobl i wirfoddoli. Mae'r Brifysgol yn gwneud cryn dipyn o waith ymchwil sy'n gysylltiedig ag ynni carbon isel, yr amgylchedd morol, ac iechyd, yn uniongyrchol a thrwy sefydliadau ledled Cymru fel WISE sy'n cynnwys prifysgolion Aberystwyth, Bangor ac Abertawe. Mae ymchwil diwylliannol, yn benodol o ran y Gymraeg a diwylliant Cymraeg, hefyd yn elfen o'r agenda ymchwil.

- Prifysgol Aberystwyth - partneriaethau cryf gydag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, ac yn ddiweddar enillodd wobr aur Eco-Gampws am ei gwaith rheoli amgylcheddol. Mae'r Brifysgol yn gwneud cryn waith ymchwil rhyngddisgyblaethol sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o feysydd gan gynnwys ymgysylltu gwleidyddol, bioleg amgylcheddol, ac iechyd gwledig. Mae hefyd yn ymgysylltu â'r gymuned leol yn sgil ei defnydd o gyfleusterau'r gymuned, yn benodol Canolfan y Celfyddydau. Hoffai adeiladu ar y gwaith ymgysylltu

hwn drwy brosiectau cyfalaf yn y dyfodol yn Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, a fydd yn cynnwys cyfleusterau helaeth ar gyfer ymgysylltu â busnesau a'r cyhoedd.

- Prifysgol De Cymru - bwrw ymlaen â'r gwaith o ddiweddaru ei system rheoli amgylcheddol ar ôl uno â Phrifysgol Cymru Casnewydd. Mae'r Brifysgol yn addysgu mewn nifer o feysydd sy'n hollbwysig i ddatblygu cynaliadwy, gan gynnwys gofal iechyd, peirianneg, addysgu a gwaith cymdeithasol. Mae gan y Brifysgol arbenigedd penodol mewn ynni adnewyddadwy, a datblygodd Gyfleuster Ymchwil Hydrogen Baglan er mwyn gweithredu'r dechnoleg newydd hon.

- Prifysgol Glyndŵr - systemau rheoli amgylcheddol cryf, ac wedi gweithio gydag Ymddiriedolaeth Garbon Cymru i wella ei threfniadau rheoli amgylcheddol drwy gyngor strategol a chyllid di-log. Mae hefyd wedi cyflwyno mwy o brosiectau ymgysylltu a gwirfoddoli. Mae gan y Brifysgol fuddiannau penodol mewn bwyd cynaliadwy, ac yn agenda gynaliadwyedd ehangach UNESCO, ac mae'n gweithredu ar sail hyn. Mae gan y Brifysgol gysylltiadau helaeth â'r gymuned leol ac yn defnyddio ei hystâd i gefnogi hyn.

Yn wreiddiol, sefydlwyd Canolfan Arbenigedd Ranbarthol UNESCO mewn Datblygu Cynaliadwy gan Brifysgol Cymru Casnewydd a Phrifysgol Abertawe. Mae'r sefydliad hwn, sy'n rhan o rwydwaith rhyngwladol o sefydliadau, yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Ar hyn o bryd, mae Canolfan Arbenigedd Ranbarthol Cymru yn cael ei hailddatblygu er mwyn ei gwneud yn fwy cydnaws â nodau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Prifysgol Bangor sy'n arwain y gwaith hwn ac mae'n cael ei reoli drwy Grŵp Cenedlaethau'r Dyfodol yr Academi Addysg Uwch sy'n cynrychioli pob un o brifysgolion Cymru a phob sefydliad partner. Mae'n ddyddiau cynnar ar y gwaith ar hyn o bryd, ond y bwriad yw creu platfform i hwyluso, cefnogi ac arddangos arferion gorau newydd ym maes datblygu cynaliadwy.

**Atodiad iii - Llwybrau dynodi**

**1. Dynodi awtomatig**

Mae'r gofynion rheoliadol sy'n ymwneud â sefydliadau yng Nghymru y caiff eu cyrsiau addysg uwch eu dynodi'n awtomatig o ran cymorth i fyfyrwyr (pob sefydliad addysg uwch a rhai sefydliadau addysg bellach) yn deillio o'r fframwaith rheoliadol a sefydlwyd gan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a chânt eu goruchwylio gan CCAUC. Lle bydd CCAUC yn cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad y darparwr, bydd ei holl gyrsiau cymwys yn cael eu dynodi'n awtomatig i gael cymorth myfyrwyr Llywodraeth Cymru, a bydd y sefydliad yn cael ei reoleiddio dros gyfnod y cynllun ffioedd a mynediad. Er mwyn bod yn gymwys i wneud cais, rhaid i ddarparwr fodloni'r meini prawf canlynol:

- bod yn sefydliad yng Nghymru
- darparu addysg uwch
- bod yn elusen

Bydd gofyn i ddarparwyr roi gwybodaeth ar eu hyfywedd ariannol, sut caiff eu materion ariannol eu trefnu a'u rheoli, ac ansawdd yr addysg y maent yn ei chynnig. O flwyddyn academaidd 2017/18 ymlaen, bydd cyrsiau addysg uwch llawnamser sy'n cychwyn ar 1 Medi 2017, neu ar ôl hynny, ond yn cael eu dynodi'n awtomatig os ydynt yn gyrsiau a ddarperir gan gan 'sefydliadau addysgol cydnabyddedig', fel y'u pennir yn rheoliadau cymorth i fyfyrwyr Cymru. Diffinnir 'sefydliad addysgol cydnabyddedig' fel:

(i) sefydliad a reoleiddir yng Nghymru, hy sefydliad sydd â chynlllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd gan CCAUC o dan adran 7 o Ddeddf 2015 tra bydd y cynllun hwnnw mewn grym;

(ii) sefydliad a reoleiddir yn Lloegr, hy sefydliad a gynhelir neu a gynorthwyir gan grantiau rheolaidd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr;

(iii) sefydliad yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon a gynhelir neu a gynorthwyir gan grantiau rheolaidd o gyllid cyhoeddus.

**2. Dynodi penodol**

Mae'r trefniadau gweinyddol a amlinellir ym mholisi Llywodraeth Cymru ar ddynodi cyrsiau penodol a gyhoeddwyd ym Mehefin 2017 yn darparu ar gyfer y gofynion y mae'n rhaid i ddarparwyr (yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r DU) y mae eu cyrsiau addysg uwch wedi'u dynodi'n benodol i gael cymorth myfyrwyr gydymffurfio â nhw. Ar hyn o bryd, nid oes gan CCAUC rôl o ran y polisi dynodi cyrsiau penodol. Fodd bynnag, ystyrir gofyn i CCAUC ddechrau cynnal y gwiriadau cydymffurfedd gweinyddol sy'n ymwneud â cheisiadau i ddynodi cyrsiau.

Gall darparwr addysg uwch wneud cais fesul cwrs i Lywodraeth Cymru at ddibenion eu dynodi'n benodol. Mae yna bum maen prawf a gaiff eu hystyried wrth benderfynu a ddylid dynodi cwrs:

- Mae'r cwrs yn bodloni'r meini prawf perthnasol;
- Mae'r cwrs wedi'i ddilysu gan gorff dyfarnu priodol;
- Mae'r darparwr yn cyfrannu at les y cyhoedd;

- Mae'r ddarpariaeth a gynigir o ansawdd digonol;
- Mae'r darparwr yn ariannol hyfyw.

O ran ansawdd, mae'n ofynnol i ddarparwyr gyflwyno gwybodaeth a ddarperir gan y sefydliad neu'r asiantaeth sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd y cwrs. Dylai'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch neu asiantaeth ar Gofrestr Sicrhau Ansawdd Ewrop ar gyfer Addysg Uwch gymeradwyo ansawdd addysg uwch darparwyr, a bydd angen i'r darparwyr gyflwyno tystiolaeth o adolygiad llwyddiannus. Fodd bynnag, o ystyried yr amserlenni, gall darparwyr gyflwyno ffurflen gais ar gyfer dynodi cyrsiau 2017/18 lle nad yw'r adolygiad o ansawdd wedi'i gynnal eto. Os bodlonir y meini prawf eraill, byddai'n bosibl dynodi cyrsiau darparwr gan nodi y bydd yn rhaid iddo drefnu adolygiad o ansawdd cyn gynted ag y bo'n ymarferol i'r ddwy ochr, fel sail i ddynodiadau yn y dyfodol. Dyma sydd wedi digwydd yn achos dau goleg addysg bellach.

Mae ceisiadau i ddynodi cyrsiau penodol ar gyfer 2017/18 yn dod i law ac yn cael eu prosesu ar hyn o bryd, a byddwn yn ymdrechu i ddod i benderfyniad ynghylch pob cais mewn pryd ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd.

Roedd y polisi ar ddynodi cyrsiau penodol yn cyflwyno gofynion sy'n berthnasol i geisiadau am gyrsiau a ddechreuodd ar 1 Medi 2017 neu wedi hynny.  Ar hyn o bryd, nid yw'r polisi hwn yn effeithio ar gyrsiau sydd eisoes wedi'u dynodi. Nid oes cyfyngiadau ar y ffioedd dysgu y gellir eu codi am gyrsiau sydd wedi'u dynodi'n benodol.  Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae uchafswm y cymorth sy'n daladwy yn rhyw £3mil yn llai na'r uchafswm sy'n daladwy ar gyfer cyrsiau sydd wedi'u dynodi'n awtomatig.

**Atodiad iv - yr UE**

**Cyllid yr UE ac Addysg Uwch**

Mae sector addysg uwch Cymru wedi elwa'n fawr ar gyllid yr UE, gan helpu i feithrin y gallu i ymchwilio a chynyddu'r cydweithio â byd busnes. Ar hyn o bryd, mae prifysgolion Cymru yn arwain ar 21 o brosiectau o dan raglen 2014-2020, sy'n werth tua £190m o gyllid yr UE.

Ymhlith y prosiectau a ariennir gan yr UE sy'n cefnogi ymchwil o ansawdd mae:

- Canolfan Delweddu Prifysgol Caerdydd er Ymchwil yr Ymennydd (**CUBRIC**) - £4.6m o gyllid yr UE. Mae'r cyfleuster hwn sydd o'r radd flaenaf yn helpu ymchwilwyr i brofi syniadau a damcaniaethau yn gyflym er mwyn mynd ati'n gyflymach i ddeall achosion ystod o gyflyrau iechyd, gan gynnwys dementia, sgitsoffrenia a sglerosis ymledol.

- **Canolfan Peirianneg Cynnyrch Cynaliadwy ar gyfer Haenau Diwydiannol Swyddogaethol Arloesol (SPECIFIC)** - £15m o gyllid yr UE. Prifysgol Abertawe sy'n arwain y gwaith hwn ochr yn ochr â phartneriaid diwydiannol, gan gynnwys Cwmni Dur TATA. Mae'r prosiect yn helpu i ddatblygu'r broses o fasnacheiddio technolegau, gan weddnewid adeiladau yn orsafoedd pŵer drwy eu galluogi i greu, storio a rhyddhau eu hynni solar eu hunain.

- **SEACAMS 2** - £17m o gyllid yr UE. Prifysgol Bangor sy'n arwain y gwaith hwn, i helpu i ehangu sector ynni'r môr yng Nghymru drwy greu mentrau newydd yn y sector a mynd ati i greu swyddi yn gyflymach mewn busnesau sydd eisoes yn bod.

- **Campws Arloesi a Menter Aberystwyth** - £20m o gyllid yr UE. Prifysgol Aberystwyth sy'n arwain y gwaith hwn, sef cyfleuster newydd o'r radd flaenaf a gaiff ei gydnabod yn rhyngwladol. Bydd y Campws Arloesi a'i ffocws masnachol yn cynyddu ein gallu i gynnal prosiectau ymchwil cydweithredol i hybu'r bio-economi.

Ers Mai 2017, mae sector addysg uwch Cymru hefyd wedi sicrhau cyllid gwerth €76m gan yr UE drwy raglen ymchwil ac arloesi fwyaf yr UE, **Horizon 2020.** Mae sefydliadau addysg uwch Cymru yn cael 64% o gyfanswm y cyllid a ddyfernir i sefydliadau Cymru hyd yma. Mae Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Aberystwyth ymhlith y 50 o brif sefydliadau addysg uwch yn y DU sydd wedi elwa ar Horizon 2020 hyd yn hyn.

Ymhlith y prosiectau llwyddiannus mae **IMAJINE** Prifysgol Aberystwyth, sydd wedi cael bron i €5m o gyllid Horizon 2020 i ymchwilio i anghydraddoldebau rhanbarthol. IMAJINE yw un o'r prosiectau mwyaf o ran gwyddorau cymdeithasol i gael ei gyllido gan Horizon 2020.

Mae adroddiad Colegau Cymru ar gyswllt colegau a sefydliadau addysg bellach Cymru â chyllid yr UE a luniwyd ym mis Ionawr 2017 yn nodi bod sefydliadau addysg bellach yn cymryd rhan ym mhrosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop, fel prif fuddiolwyr a chydfuddiolwyr. Mae eu cyswllt â phrosiectau ERDF wedi bod yn llai - ac wedi canolbwyntio ar fuddsoddi cyfalaf yn bennaf. Nid oes un sefydliad addysg bellach yn cymryd rhan mewn prosiect ERDF ar hyn o bryd (Ionawr 2017). Un o gasgliadau'r adroddiad yw bod colegau wedi cymryd rhan mewn prosiectau a mentrau gwerth cyfanswm o £594 miliwn (gan gynnwys cyllid yr UE ac arian cyfatebol) ers 2007.

Mae Llywodraeth y DU wedi gwarantu cyllid i brosiectau Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 a gymeradwyir cyn i'r DU adael yr UE.

Yn y cyfnod ôl-Brexit, mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Brexit, *Diogelu Dyfodol Cymru*, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2017, yn gwneud ein safbwynt yn glir, sef bod yn rhaid dod o hyd i'r holl gyllid a ddarperir gan yr UE ar hyn o bryd drwy ddiwygio Grant Bloc Llywodraeth Cymru, ac y caiff cymwyseddau a ddatganolir eu parchu er mwyn creu trefniadau buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol sy'n benodol i Gymru.

Gall colegau addysg bellach, yn ogystal â darparwyr eraill, wneud cais am gyllid Erasmus+ er mwyn helpu i gyllido lleoliadau gwaith ac astudio dysgwyr a phrentisiaid galwedigaethol. Mae Colegau Cymru wedi bod yn arbennig o lwyddiannus yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid dim ond o ran cefnogi colegau unigol gyda'u ceisiadau am gyllid, ond hefyd o ran cyflwyno ceisiadau consortia am gyllid Erasmus+. Mae hyn wedi sicrhau bod y cyllid Erasmus+ sydd ar gael i golegau addysg bellach yng Nghymru wedi codi o tua €820mil yn 2014 i fwy na €2miliwn yn 2017.

Bydd colli lleoliadau gwaith a'r cyfle i astudio dramor yn lleihau'r cyfle i ddysgwyr Cymru ddatblygu ystod gyfan o sgiliau, gan gynnwys cyfathrebu trawsddiwylliannol, gwaith tîm a hunanreolaeth yn ogystal â'u sgiliau galwedigaethol.

Bydd colli cyfleoedd i staff ac uwch-reolwyr gael cymryd rhan mewn teithiau cyfnewid hefyd yn lleihau'r cyfle i ymchwilio i arferion gorau, ystyried gwahanol ddulliau gweithredu a sefydlu partneriaethau â'u cydweithwyr yn Ewrop. A bydd yn amddifadu Ewropeaid o'r cyfle i ddysgu am arferion da yng Nghymru, ac yn effeithio, felly, ar enw da Cymru yn rhyngwladol.

Mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn glir yn 'Diogelu Dyfodol Cymru', sef y byddem yn hoffi gweld dysgwyr a staff Cymru yn parhau i gymryd rhan yn rhaglen Erasmus+ ac unrhyw raglen ddilynol nawr ac yn y dyfodol.